**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

6 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Mewn ymateb i’ch llythyr dyddiedig 28 Tachwedd 2024 ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar Reoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024, yn dilyn trafodaethau â Chofrestrydd yr OSau gallaf gadarnhau y byddai modd gwneud y cywiriad mewn ymateb i Bwynt Technegol 3 drwy gyfrwng slip cywiro, gan mai gwall croesgyfeirio teipograffyddol ydyw. Teimlwyd, fodd bynnag, nad oedd y cywiriadau yr oedd yn ofynnol eu gwneud yn sgil Pwyntiau Technegol 2 a 6 yn ddigon amlwg i ystyried eu cywiro drwy gyfrwng slip cywiro.

Er mwyn cywiro’r gwallau, bydd Llywodraeth Cymru nawr yn llunio rheoliadau diwygio pellach, i’w gosod yn gynnar yn y flwyddyn newydd, i gywiro’r tri phwynt mewn un Offeryn Statudol. Bydd hyn yn helpu gyda hygyrchedd y gyfraith.

Yn gywir

S. Murphy

**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.